

PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO
MORGANNWG
6^{ed} Chwefror 2013

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Bronwen Brooks -
 CBM
 Pam Toms – CBM
 Mike Ingram – CBM
 Francis Beecher – Cymorth
 Mike Friel – CSC
 Helen Jones - CIC
 Jeff Gooch – Cymorth
 Sian Harrop-Griffiths – BIPCF
 Chris Maggs – Bwrdd Cynghori
 Cenedlaethol Cefnogi Pobl

Michelle Brewer – CSC
 Mark Sheridan – CIC
 Peter Greenhill - Gwasanaeth Prawf
 Simon Protheroe - LIC
 Sian Griffiths – Iechyd y Cyhoedd
 Donna Clitheroe – CBM (cofnodion)

Ymddiheuriadau:

Ceri Meloy – Cymorth
 Y Cynghorydd Lynda Thorne - CSC

	Cam Gweithredu
<p>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau Croesawodd y Cynghorydd Bronwen Brooks (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod.</p> <p>Cyflwynodd pawb eu hunain a nodwyd y sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli a'r ymddiheuriadau.</p>	
<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf ynghyd â'r ychwanegiadau canlynol a hepgorwyd:</p> <p>Cynlluniau Comisiynu Lleol a Rhanbarthol</p>	

<p>Mewn ymateb i Gynllun Comisiynu Lleol (CCLI) Cyngor Caerdydd, dywedodd Simon Protheroe (SP) fod Llywodraeth Cymru (LIC) yn disgwyl i'r Cynllun fod yn fwy strategol gadarn. Dylai gyfeirio at adolygiadau strategol a gynhaliwyd eisoes gan y Tîm Cefnogi Pobl a sut y câi toriadau cyllideb eu rheoli o 2014 ymlaen.</p> <p>Ymatebodd Mike Friel (MF), gan nodi er bod llawer o wybodaeth o adolygiadau gwasanaeth eisoes wedi'i chasglu, byddai'n well gan y Tîm Cefnogi Pobl wneud rhagor o waith i gadarnhau'r canfyddiadau cyn eu rhyddhau fel na fyddant yn codi ofn ar bobl. Hefyd, roedd y PCRh eisoes wedi cytuno ar CCLI Caerdydd a'r broses ar gyfer gweithredu toriadau cyllideb 2013/14.</p>	
<p>Materion yn Codi Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol - Cymeradwywyd cynnydd yn arian LIC i gynyddu'r raddfa gyflog a hysbysebwyd yn wreiddiol.</p> <p>Gwnaed diwygiadau i'r Disgrifiad Swydd, sy'n cael eu hystyried gan Dîm Gwerthuso Swyddi'r Cyngor, a bydd ailwerthuso'r swydd yn flaenoriaeth. Dylai hyn sicrhau y caiff ei hysbysebu eto dros yr wythnosau nesaf.</p> <p>Cytunwyd y câi'r swydd ei hysbysebu'n eang drwy Gymorth, Tai Cymunedol Cymru a Chyngor Caerdydd, yn ogystal ag yn y wasg a'r Ganolfan Byd Gwaith.</p>	PT
<p>Ffurflenni Gwrthdaro Buddiannau Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.</p>	
<p>Achredu. Dywedodd SP wrth y grŵp y cafwyd ymateb da i'r ymgynghoriad ffurfiol a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2013, a bod LIC yn ei ddadansoddi ar hyn o bryd.</p> <p>Sefylla Ariannol yn erbyn y Gyllideb. Dim newidiadau.</p> <p>Nodi Anghenion Rhanbarthol. Disgwyl penodi Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol.</p> <p>Canlyniadau a Rheoli Perfformiad (gan gynnwys adolygu gwasanaethau). Awgrymodd SP y cafwyd diweddariad gan y ddau Gyngor ar y data canlyniadau o'r chwe mis cyntaf, ac y cytunwyd arno.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar ba un a ddylid adrodd ar ganlyniadau</p>	PT/MB

<p>adolygu gwasanaethau i'r PCRh a chytunwyd na ddylid gwneud hynny ac eithrio dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bod problem wedi'i nodi a fyddai'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd e.e. unrhyw ofynion o ran ail-fodelu. 2. Os nodir arfer gorau (a ddylai hefyd gael ei adrodd i'r PCRhau eraill yng Nghymru) 3. Os ceir adborth cadarnhaol ar wasanaeth. <p>Cynigion ar Ail-fodelu Strategol. Dim</p> <p>Comisiynu a Chaffael Ail-dendro Contractau Anableddau Dysgu (Caerdydd)</p> <p>Cadarnhaodd Michelle Brewer (MB) na fu newid ers cyfarfod PCRh mis Ionawr. Dywedodd MF fod hyn gan fod Aelodau wedi penderfynu ystyried model caffael newydd a ffyrdd newydd o gomisiynu gwasanaethau a oedd yn destun Adroddiad Cabinet diweddar. Sefydlwyd Tasglu o bartneriaid i ystyried yr opsiynau. Gwahoddwyd Sian Harrop-Griffiths (SHG) i eistedd ar y grŵp a byddai Phil Evans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg, yn cael ei wahodd hefyd. Nid oedd eto'n hysbys a gâi'r gwaith hwn effaith ar y dyddiadau ail-dendro a gyhoeddwyd yng nghyfarfod diwethaf y PCRh.</p> <p>Gofynnodd Chris Maggs (CM) i gopi o Adroddiad y Cabinet gael ei anfon ymlaen i'r PCRh, gan ei fod yn gyhoeddus.</p> <p>Cytunodd MF/MB i roi diweddariad yng nghyfarfod nesaf y PCRh.</p>	<p>MB/MF</p>
<p>Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth</p> <p>Cadarnhaodd PT ac MB fod holiaduron wedi'u hanfon i'r holl Ddarparwyr Cymorth i alluogi'r ddau ranbarth i gasglu gwybodaeth am y dulliau ymgynghori presennol sydd ar waith. Y dyddiad olaf i'w dychwelyd yw 11 Mawrth 2013.</p> <p>Unwaith y cânt eu dadansoddi caiff adroddiad ei ddwyn gerbron y PCRh i benderfynu ar y camau nesaf wrth ddatblygu Fframwaith Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaeth.</p>	<p>PT/MB</p>
<p>Troseddwyr Ifanc - Frances Beecher (Llamau a Cymorth)</p> <p>Eglurodd FC mai nod y project yw sefydlu broceriaeth adsefydlu ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yng Ngogledd a De Cymru a</p>	

<p>fyddai'n datblygu pecynnau adsefydlu i bobl ifanc hyd at 18 oed a allai droseddu.</p> <p>Mae angen arweinyddiaeth strategol ar y project a pharodrwydd gan bartneriaid i ddarparu pecyn adsefydlu a chymorth y gellir ei ddefnyddio yn hytrach na chystodaeth. Gobeithio y bydd modd mabwysiadu dull Cymru gyfan er cysondeb, a gall y project ddysgu o'r dull a fabwysiadwyd yn Lloegr, a oedd yn aflwyddiannus.</p> <p>Mae De Cymru eisoes wedi sefydlu consortiwm adsefydlu. Bydd y partneriaid yn cydweithio a bydd y pecyn adsefydlu yn cynnwys addysg, hyfforddiant ac ymyriadau eraill. Bydd Llamau yn siarad â'r Timau Troseddau leuenctid a'u partneriaid gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i geisio datblygu hyn.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynnig newydd hwn a bydd y Gwasanaeth Prawf ac FB yn adrodd ar gynnydd i'r PCRh yn y gobaith y bydd yr aelodau'n cefnogi'r fenter ym Mro Morgannwg a Chaerdydd.</p>	<p>FB</p>
<p>Y Ddadl Iechyd Fawr - a oes angen Bil Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru? - Dr Sian Griffiths, Iechyd y Cyhoedd</p> <p>Rhoddodd Sian Griffiths (SG) gyflwyniad ac eglurodd, yn gyffredinol, fod iechyd yng Nghymru yn gwella ond bod o hyd heriau iechyd mawr y mae angen eu hwynebu.</p> <p>Nid yw iechyd pobl nad ydynt mewn sefyllfa ariannol dda yn gwella mor gyflym â gweddill y boblogaeth, sy'n amlwg yn cynnwys cleientiaid digartref. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymgynghori i gasglu barn pobl ar ba un a oes angen Bil Iechyd Cyhoeddus a ph'un a ddylid cyflwyno deddfau i fynd i'r afael â rhai o'r heriau. Mae hyn yn cynnwys cwestiwn ar ba un a ddylai'r GIG, awdurdodau lleol a chyrrff eraill orfod gwneud mwy i wella iechyd y cyhoedd. Dosbarthodd SG gardiau adborth a gwybodaeth am sut i ymateb i'r ymgynghoriad, a thynnodd sylw at ddigwyddiad ymgynghori ar 13 Chwefror.</p> <p>Gweler y ddolen isod a'r cyflwyniad atodedig:</p>	
<p>Ymgysylltu â'r Sector Rhent Preifat ar PCRh - Frances Beecher (Cymorth)</p> <p>FB i roi diweddariad yng nghyfarfod mis Mawrth. Ar ôl hynny bydd</p>	

Cyngor Caerdydd yn llunio papur opsiynau at gyfarfod Ebrill er ystyriaeth.	FB
<p>Diweddariad gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Gwnaed cais yn flaenorol i adborth gael ei anfon dros e-bost yn gyntaf fel y gellid ei nodi ar yr agenda. Fodd bynnag nid oedd modd gwneud hyn bob tro gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.</p> <p>Cadarnhaodd SP fod cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru wedi bod i bob un cyfarfod PCRh yng Nghymru ac y gallai roi adborth llafar. Byddai'n cymryd gormod o amser i ysgrifennu popeth yn gyntaf. Hefyd, roedd adborth ffurfiol eisoes ar gael drwy Gylchlythyr Cefnogi Pobl rheolaidd LIC.</p> <p>Cadarnhaodd y Cynghorydd Bronwen Brooks (BB) ei bod yn fodlon i LIC roi adborth llafar ym mhob cyfarfod, a chytunodd pawb a oedd yn bresennol nad oedd angen rhybudd ymlaen llaw ynghylch yr eitemau i'w trafod. Felly rhoddodd SP y diweddariad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ Caiff fframwaith Monitro ac Adolygu Cefnogi Pobl ei gyhoeddi i Awdurdodau Lleol ar unwaith, a chaiff ei gysylltu â'r Canllawiau newydd maes o law. ❖ Bellach mae'r adran Cefnogi Pobl ar wefan LIC yn weithredol ac yn cynnig dolen i wybodaeth am Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl a chofnodion pob PCRh, er bod angen gwneud rhagor o waith ar y wefan. ❖ Daw Cam-drin Domestig (ymgyngoriad Papur Gwyn) i ben ar 22 Chwefror 2013. ❖ Mae'r Bil Tai newydd wrthi'n cael ei ddrafftio. Mae digartrefedd yn rhan fawr ohono. <p>Gofynnodd MS p'un a ddylid cynnwys gwaith Rhentu Tai yn y Bil hwn, gan fod CIC yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid. Dywedodd SP y byddai ar wahân, a nodwyd Simon White o LIC fel y cyswllt i gael rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.</p> <p>Dywedodd MF ei fod yn cynrychioli Panel Prif Swyddogion Cymru Gyfan (PPSCG) ar grŵp a oedd yn ystyried goblygiadau i denantiaethau tai cymorth.</p>	SP
<p>Cwestiynau neu adborth ar y broses PCRh i Chris Maggs (Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl)</p> <p>Diolchodd CM y grŵp am adael iddo ddod i'r cyfarfod a rhoddodd</p>	

<p>rywfaint o wybodaeth gefndirol am Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Amlinellodd ei gefndir fel cyn-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chylch gwaith yn cynnwys rheoli Cefnogi Pobl.</p> <p>CM yw Is-gadeirydd Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl. Amlinellodd gynydd y grŵp hyd yma, cefndiroedd amrywiol yr aelodau eraill a'u cylchoedd gwaith, a oedd yn cynnwys nodi arfer da.</p> <p>Gofynnodd CM a oedd y PCRh yn fodlon iddo barhau i ddod i gyfarfodydd yn y dyfodol. Gofynnodd FB am restr o aelodau Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl fel y gellid gwahodd pobl wahanol. Cafwyd trafodaeth ar broblemau argaeledd rhai o aelodau eraill Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl a'r angen i ddeall sut y gallant gynorthwyo'r PCRh.</p> <p>Cytunwyd y byddai SP yn anfon dolen i wefan LIC gyda rhestr o aelodau Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ac y byddai'r PCRh yn trafod presenoldeb CM ac aelodau eraill yng nghyfarfod mis Mawrth.</p>	<p>SP Pawb</p>
<p>Eitemau Agenda mis Mawrth</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ Cyflwyniad ar Borth Sengl Caerdydd ❖ Canlyniadau'r Broses Monitro Canlyniadau 	<p>MF PT/MB</p>
<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Gofynnodd y rhai a oedd yn bresennol am gyflwyniad gan Gaerdydd ar yr effaith a gâi'r toriadau cyllidebol o 4% yn 2013/14 ar ddarparwyr gwasanaeth a'r dull strategol a fabwysiedir o 2014/15 ymlaen. Cadarnhaodd MB fod y Tîm Cefnogi Pobl yng Nghaerdydd yn hapus iawn gyda'r dull cadarnhaol yr oedd darparwyr wedi'i fabwysiadu mewn ymateb i doriadau 2013/14 ac na fyddai effaith fawr ar ddefnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>O ran y dull strategol o ymateb i doriadau yn 2014/15, nid yw wedi'i nodi eto, oherwydd rhoddwyd blaenoriaeth i gwrdd â'r holl ddarparwyr yn unigol yng Nghaerdydd i gytuno ar doriadau 2013/14 ac i sicrhau bod y contractau newydd ar waith cyn 1 Ebrill 2013. Cadarnhaodd MB y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal â darparwyr ar doriadau yn y dyfodol ac y câi'r PCRh ei ddiweddarau'n rheolaidd.</p> <p>O ystyried y nifer fawr o wasanaethau yng Nghaerdydd, cadarnhaodd MF, er bod ymrwymiad i wneud toriadau o 2014</p>	<p>MB</p>

mewn ffordd strategol, petai'r gwaith yn cymryd rhy hir i'w gyflawni gallai arwain at doriad o 5% yng nghyllid darparwyr yn 2015.

Diwygio Lles - rhoddodd MF ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni yng Nghaerdydd ar ddiwygio lles. Roedd hyn yn cynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i grwpiau landlordiaid, ymestyn gwaith cynghorwyr dyledion a sicrhau bod darparwyr cymorth yn rhoi cymorth cyson i denantiaid.

Rhoddodd PT a Mike Ingram (MI) ddiweddariad ar y gwaith a wnaed yn y Fro a oedd yn cynnwys ymweld â'r holl denantiaid yr effeithiwyd arnynt, ac ymweliadau ar y cyd â darparwyr cymorth â thenantiaid sy'n cael cymorth sy'n ymwneud â'u tai. Hefyd, roedd yr holl wasanaethau cyngor wedi'u nodi a chafwyd trafodaethau i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu, gan fod yn well gan nifer o denantiaid ymweld a thrafod eu materion â staff nad oeddent yn staff Cyngor e.e. Cyngor ar Bopeth.

Argymhellodd SP y dylid cynnwys diwygio lles ar agenda'r cyfarfod nesaf. Cytunwyd gan bawb a oedd yn bresennol y cynhelid trafodaeth gyffredinol fel y gallai pawb gynnig sylwadau a bod modd nodi arfer gorau.

Awgrymodd FC y dylai'r PCRh ymateb i ddogfennau ymgynghori e.e. y Papur Gwyn ar Drais yn erbyn Merched. Dywedodd MF fod ymatebion Caerdydd fel arfer yn ysgrifenedig ac y cytunir arnynt gan y Grŵp perthnasol. Yn achos y Papur Gwyn, hwn oedd y Fforwm Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol. Awgrymodd CM y gallai'r PCRh drafod yr ymatebion unwaith y cânt eu casglu a phenderfynu p'un a ddylid eu cymeradwyo ai peidio.

Rhoddodd MS y newyddion diweddaraf i'r PCRh ar y Ffrwd Waith Gyllid i Gefnogi Pobl, a oedd yn cael ei hailymgynnull gan LIC i ailystyried y Fformiwla Ddosbarthu. Hefyd, bu Cymorth a CIC yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar lety a eithrir, ond ni wnaed unrhyw gynnydd a chafwyd llythyr gan DWP yn dweud nad oeddent yn ystyried newidiadau mwyach.

Cyfarfod nesaf: 3pm ar 6 Mawrth 2013, Ystafell F26, Bloc A, Depo'r Apls, Gwenfô.